



Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) Tystiolaeth o Genedligrwydd a Manylion Preswyllo

Dylech anfon **llungopiau** o'ch tystiolaeth oni bai y nodir fel arall. Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol.



Dinasyddion o'r UE ac AEE

Mae'r rhestr ddiweddaraf o holl aelod-wladwriaethau'r UE ac AEE ar gael yn: www.homeoffice.gov.uk



Preswyllo fel arfer

Golyga 'preswyllo fel arfer' eich bod yn byw'n arferol ac yn gyfreithiol yn y DU, AEE, y Swistir a Gibraltar o ddewis. Os ydych chi wedi symud i'r DU i ddibenion addysg, rhaid eich bod wedi bod yn preswyllo fel arfer yn yr AEE, y Swistir neu Gibraltar cyn i chi fod yn preswyllo fel arfer yn y DU. Peidiwch â chynnwys unrhyw absenoldebau dros dro nad ydynt yn fwy na chwe mis yn ystod y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf eich cwrs.

Rhaid i chi hefyd fod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs ac yn gallu cael LCA.

Os oes angen i chi angen eich Hawlen Ffioetrig Preswyllo fel tystiolaeth ar gyfer unrhyw gwestiwn yn yr adran hon, gallwn eich sicrhau mai dim ond i ddilysu eich hunaniaeth y'i defnyddir, ac na fydd unrhyw ddata arall yn cael ei ddefnyddio na storio.

Disgynyddion uniongyrchol a pherthnasau uniongyrchol yn y llinell esgynnol

Mae disgynyddion uniongyrchol yn blentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati i unigolyn. Rydych chi'n ddisgynyddion uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol yw rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati.

Eich statws presennol:



Gwladolyn y DU

Os oes gennych basbort y Deyrnas Unedig dilys, rhowch y manylion hyn. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi anfon eich pasbort atom.

Os nad oes gennych chi basbort dilys y Deyrnas Unedig, bydd angen i chi anfon eich tystysgrif geni wreiddiol atom.

Ni allwn dderbyn pasbort sydd wedi dod i ben fel prawf o'ch hunaniaeth.



Gwladolyn Gwyddelig

Mae angen i chi anfon:

- eich pasbort Gweriniaeth Iwerddon gwreiddiol; neu
- eich gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol.

Ni allwn dderbyn pasbort sydd wedi dod i ben fel prawf o'ch hunaniaeth.



t Aelod o deulu gwladolyn y DU

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- plentyn neu lysblentyn;

neu ddisgynnydd uniongyrchol arall o wladolyn y DU.

Rhaid i chi anfon pasbort eich aelod o'r teulu sy'n wladolyn y DU a hefyd anfon prawf o'ch perthynas i'r gwladolyn y DU. Gallai hyn fod:

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil; neu
- dystysgrif geni yn dangos eich enw ac enw'r gwladolyn y DU; a
- thystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os ydych chi neu'r gwladolyn y DU yn llys-blentyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel disgynnydd uniongyrchol i wladolyn y DU, rhaid i chi fod dan 21 oed; neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.

t Statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

I gael cyllid i fyfyrwyr fel gwladolyn yr UE gyda statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog, mae angen i chi brofi eich statws mewnfudo. Mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad statws Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu.

Ewch i www.gov.uk/view-prove-immigration-status i greu'r cod. Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted ag y byddwch yn creu'ch cod rhannu er mwyn i ni allu gwirio eich statws o fewn y 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth. Os na fyddwch chi'n darparu eich cod rhannu, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn wladolyn yr UE, trwy anfon eich pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol yr UE atom.



t Plentyn Gwladolyn y Swistir

Rhaid eich bod chi a'ch rhiant neu lys riant wedi derbyn statws preswlydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswlyio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Rhaid eich bod yn preswlyio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE, neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

Rhaid i chi anfon pasbort neu gerdyn adnabod eich rhiant. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom fel prawf o'ch perthynas.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid i'ch rhiant sy'n wladolyn y Swistir fod yn preswlyio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd eich cwrs. Rydym angen llythyr wedi ei lofnodi gan eich rhiant Swisaidd yn datgan ei gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn byw yno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd eich cwrs. Rhaid i'r rhiant hefyd anfon un o'r dogfennau canlynol:

- Datganiad banc
- Slip cyflog
- Cytundeb tenantiaeth/datganiad morgais
- Bil cyfleustodau
- Gohebiaeth gan awdurdod lleol
- Gohebiaeth gan adran llywodraeth

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad Statws Preswlydd Sefydlog gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich rhiant neu lys-riant, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni.

Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r codau. Yn dilyn eu creu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted ag y byddwch yn creu'ch cod rhannu er mwyn i ni allu gwirio eich statws o fewn y 90 niwrnod.

Wrth roi eich codau rhannu, byddwn yn gwirio'r manylion gyda'r Swyddfa Gartref ac yn cadarnhau'r wybodaeth rydych wedi ei rhoi. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich rhiant neu lys-riant.



t Gweithiwr Mudol o'r AEE neu'r Swistir

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU, rhaid eich bod chi a'ch aelod o'r teulu fod wedi derbyn statws preswlydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Rhaid i'r gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd ddarparu prawf o'i genedligrwydd ynghyd â'i basbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom.

Fel prawf o statws cyflogaeth cyfredol y gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith, rhaid darparu un o'r canlynol yn dystiolaeth:

- P60 neu lythyr gan gyflogwr os yw'n gweithio ar hyn o bryd.
- Cyfrifon archwiliedig, ffurflenni treth neu fanylion incwm os yn hunangyflogedig.
- Llythyr gan gyflogwr yn cadarnhau'r bwriad i barhau i weithio tra'n astudio.
- P45, P60 neu lythyr gan gyflogwr blaenorol os yw'n chwilio am waith ar hyn o bryd neu wedi gweithio'n flaenorol yn y Deyrnas Unedig.

Os mai'ch plentyn, mab yng nghyfraith, merch yng nghyfraith, plentyn eich partner sifil neu ddisgynydd uniongyrchol arall yw'r gweithiwr, rhaid i chi fod yn ddibynnol arno/arni.

Os ydych chi'n ddisgynydd uniongyrchol i wladolyn yr AEE, rhaid i chi fod dan 21, neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn. Nid yw hyn yn berthnasol mewn achosion ble mae'r rhiant gweithiwr AEE wedi marw neu adael y DU a bod y plentyn yn aros ymlaen i gwblhau ei addysg yn y DU.

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad Statws Preswlydd Sefydlog gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich aelod o'r teulu, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni. Ewch i www.gov.uk/view-prove-immigration-status i greu'r codau. Yn dilyn eu creu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted ag y byddwch yn creu'ch cod rhannu er mwyn i ni allu gwirio eich statws o fewn y 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich rhiant neu lys-riant.

Os ydych chi neu'ch aelod o'r teulu yn Weithiwr y Ffin, anfonwch hawlen y Gweithiwr y Ffin neu dystiolaeth gyfatebol.



Aelod o deulu gwladolyn yr AEE
neu Swisaidd a ddaeth i'r DU cyn 31
Rhagfyr 2020

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir rhaid bod gan eich aelod o'r teulu fod statws preswlydd sefydlog neu cyn-sefydlog yn y DU. Rhaid eich bod wedi gwneud cais i Gynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE o fewn tri mis i gyrraedd y DU.

Rhaid i'r gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd ddarparu prawf o'i genedligrwydd ynghyd â'i basbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom fel prawf o'ch perthynas.

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu eich Tystysgrif o'ch Cais i'r Cynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich aelod o'r teulu, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r codau. Yn dilyn eu creu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted ag y byddwch yn creu'ch cod rhannu er mwyn i ni allu gwirio eich statws o fewn y 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich rhiant neu lys-riant.

t Y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)

Os ydych chi wedi cael caniatâd neu ganiatâd oherwydd llinach dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS), byddwch wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd â'r statws hwn. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswyllo Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Dyddiad dod i ben

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

Cynllun Ex-Gratia Staff Affganaidd a Gyflogwyd yn Lleol

Mae'r cynllun hwn ar gyfer gweithwyr blaenorol llywodraeth y Deyrnas Unedig a ymddiswyddodd neu a ddiswyddwyd o'u swydd. Nid yw gwladolion Affganaidd sydd wedi eu hail-leoli i'r Deyrnas Unedig dan y cynllun hwn yn gymwys i dderbyn cyllid i fyfyrwyr.

t Statws wedi setlo (caniatâd amhenodol i fynediad neu aros neu hawl preswyllo)

Mae statws wedi setlo yn golygu y gallwch fyw yn y Deyrnas Unedig yn barhaus heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ar am ba hyd y gallwch aros.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Rydych yn ddinesydd Prydeinig.
- Rydych wedi cael caniatâd amhenodol i fynediad neu aros.
- Mae gennych hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch materion eraill sy'n ymwneud â mewnfudo gan y Swyddfa Gartref ar **www.homeoffice.gov.uk**

Os nad oes gennych chi basbort Prydeinig neu Ganiatâd Preswyllo Biometrig sy'n cadarnhau'ch statws mewnfudo, ond bod gennych chi lythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n gwneud hynny, anfonwch y llythyr hwn gyda'ch ffurflen gais.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.



t Caniatâd yn ôl disgrisiwn o ganlyniad i gais lloches aflwyddiannus

Caniatâd yn ôl disgrisiwn ble na wnaethpwyd cais am loches

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

Ganiatâd yn ôl Disgrisiwn i neu Aros yn y Deyrnas Unedig:

- o ganlyniad i gais aflwyddiannus am loches; neu
- ble na wnaethpwyd cais am loches

bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd â Chaniatâd yn Ôl Disgrisiwn i Aros. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich riant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

Dyddiad y daw i ben

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

Ganiatâd yn Ôl Disgrisiwn i Aros heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwch dod i ben fel Amh (amherthnasol).



t Caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd teuluol, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd â Chaniatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

Dyddiad y daw i ben

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwch dod i ben fel Amh (amherthnasol).



t Caniatâd i aros ar sail bywyd preifat

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd preifat, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd â Chaniatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

Dyddiad y daw i ben

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwch dod i ben fel Amh (amherthnasol).



t Caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), yn dilyn cais aflwyddiannus am 'ganiatâd mynediad neu aros' ar sail bywyd teuluol neu breifat

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig tu allan i'r rheolau mewnfudo, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd â Chaniatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich riant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

Dyddiad y daw i ben

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwch dod i ben fel Amh (amherthnasol).



t Person heb Wladwriaeth

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

ganiatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, byddwch chi neu nhw wedi derbyn llythyr a dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

t Cynlluniau Wcráin

Os rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros dan Gynllun Wcráin i chi, bydd angen i brofi eich statws mewnfudo gyda chod rhannu.

Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r codau. Yn dilyn eu creu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted ag y byddwch yn creu'ch cod rhannu er mwyn i ni allu gwirio eich statws o fewn y 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth.

Os nad oes gennych chi god rhannu, anfonwch eich Trwydded Preswyllo Fiometrig, neu'ch pasbort gyda vignette, neu'ch pasbort gyda'ch dogfen 'caniatâd i deithio'.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswyllo Fiometrig neu ddogfen 'caniatâd i deithio', ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.



t Statws Ffoadur neu Amddiffyniad Dros Dro

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant
- wedi derbyn statws ffoadur yn y DU dan amodau Confensiwn 1951 y Cenhedloedd Unedig ar Ffoaduriaid; **neu**
- os ydych chi wedi cael statws amddiffyniad dros dro yn y DU dan Ran 11A y Rheolau Mewnfudo;

bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd â'r statws. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn ffoadur, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich riant i'r Swyddfa Gartref fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil unigolyn sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais am loches.

Dyddiad y daw i ben

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).



t Diogelwch Dyngarol

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi cael Diogelwch Dyngarol, byddwch chi, neu nhw, wedi derbyn llythyr a dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

Anfonwch llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r Ddogfen Statws Mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi derbyn Diogelwch Dyngarol. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn statws Diogelwch Dyngarol os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws Amddiffyniad Dyngarol, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich riant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn statws Amddiffyniad Dyngarol, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

t Plentyn Gweithiwr Twrcaidd

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich riant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs. Rhaid eich bod yn preswyllo fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE y Swistir neu Dwrci am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

Anfonwch y llythyr gwreiddiol gan y Swyddfa Gartref a'ch Caniatâd Preswyllo Biometrig.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn blentyn i weithiwr o Dwrci trwy anfon Gwreiddiol pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol eich riant. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom.

Fel prawf o gyflogaeth eich riant yn y DU, rhaid i chi anfon ei gontract/chontract cyflogaeth.

Rhaid i chi hefyd anfon llythyr y Swyddfa Gartref yn cadarnhau bod gan eich riant hawl estynedig i aros yn y DU wedi 31 Rhagfyr 2020.



t Caniatâd i Aros yn y Deyrnas Unedig
dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016

Os ydych wedi cael caniatâd i aros yn y DU o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016, neu os ydych wedi cael caniatâd oherwydd llinach fel plentyn dibynnol rhywun sydd, naill ai byddwch chi neu nhw, wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan y Swyddfa Gartref y DU yn cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd mynediad neu aros dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r unigolyn os ydych chi'n blentyn dibynnol rhywun sydd wedi cael caniatâd mynediad neu aros yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

t Caniatâd Calais

Os ydych wedi cael caniatâd Calais yn y DU, neu os ydych wedi cael caniatâd oherwydd llinach fel plentyn dibynnol i rywun sydd wedi cael dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y DU, naill ai y byddwch chi neu nhw wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y DU yn cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd Calais. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn caniatâd Calais os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

t Caniatâd i aros fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig

Os ydych wedi cael caniatâd i aros fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, neu os ydych chi'n blentyn dibynnol rhywun sydd, byddwch chi, neu nhw, wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd i aros fel dioddefwr trais domestig. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel dioddefwr cam-drin domestig os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel dioddefwr trais domestig, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

t Hawl i Aros fel partner mewn profedigaeth

Os ydych wedi cael caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth, neu os ydych chi'n blentyn dibynnol rhywun sydd, byddwch chi, neu nhw, wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswyllo fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswyllo, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.